**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**13 Rhagfyr 2017**

# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# PROTOCOL AELODAU/SWYDDOGION – CYFATHREBU GYDA CHEISIADAU MAWR

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno dogfen brotocol mewnol newydd ar gyfer trin cynigion datblygiadau mawr yn y Sir. Mae’r protocol sydd newydd ei greu (Atodiad 1) wedi’i ddylunio i roi dull cyson i Swyddogion ac Aelodau gyfathrebu yn ystod y broses honno, ac wedi’i lunio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. CEFNDIR.

2.1 Mae’r Awdurdod Cynllunio Lleol yn delio ag oddeutu 1000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn. Bydd natur a math y ceisiadau hyn yn amrywio, gyda rhai’n cael eu categoreiddio fel **deiliad y tŷ** (estyniadau tŷ, ffensys ac ati), **mân** (hyd at 10 annedd, datblygiad masnachol penodol, newid defnydd) a **mawr** (10 annedd neu fwy, dros 1000 metr sgwâr o ofod llawr masnachol ac ati).

2.2 Mae llawer o’r ceisiadau hyn yn cael eu trin gan Swyddogion o dan delerau ein Cynllun Dirprwyo Cynllunio mabwysiedig, sy’n golygu nad ydynt yn cael eu hadrodd i’n Pwyllgor Cynllunio. Mae’r rhain yn tueddu i fod yn geisiadau deiliaid tai a mân ar y cyfan, er gallai rhai o’r rhain gael eu hadrodd i’r Pwyllgor Cynllunio’n dibynnu ar lefel y gwrthwynebiad a’r potensial o alw Aelodau i mewn. Bydd y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio **mawr**, o ystyried eu heffaith a’u helfen ddadleuol bosibl, yn cael eu hadrodd i’r Pwyllgor Cynllunio. Yn aml bydd y ceisiadau mawr hyn yn gymhleth ac yn hirfaith, ac mae’n hanfodol bwysig bod Aelodau sydd agosaf at y datblygiad arfaethedig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses ymgeisio ac unrhyw faterion yn hynny.

2.3 Am y rhesymau hynny, penderfynwyd datblygu dogfen brotocol syml sy'n nodi'r camau perthnasol yn glir o gynnig datblygiad mawr, o'r ymgynghoriad cyn gwneud cais, hyd at benderfynu ar y cais cynllunio. Wrth nodi’r camau hyn, mae’r ddogfen yn ceisio amlinellu rolau perthnasol Swyddogion ac Aelodau o safbwynt gweithdrefnol a chyfathrebu.

2.4 Mae’r protocol yn pwysleisio, yng Nghymru, bod yna broses cyn gwneud cais statudol ar gyfer cynigion datblygu mawr, sy’n gosod y cyfrifoldeb ar y datblygwr i ymgysylltu ag Aelodau lleol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae’r protocol yn cynnwys tabl “canllaw sydyn” i’w gwneud yn haws i Aelodau ddeall beth y dylent fod

yn ei wneud ar gamau allweddol o’r broses datblygiadau mawr.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod Aelodau’n cytuno ar y ddogfen brotocol fewnol i’w defnyddio ar gynigion datblygiadau mawr yn ddi-oed. Yn ogystal, i gytuno ar adolygiad blynyddol o’r ddogfen mewn ymgysylltiad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

**EMLYN JONES PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**